

Nid ydym ond tystion

Cydraddoldeb priodas a phenderfyniad Cyfarfod Blynyddol Prydain, Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion, i gydnabod priodas rhwng pâr o'r un rhyw

Cyflwyniad

Cynigir y papur hwn i'n heglwysi partner yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sydd yn aelodau o *Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon* ac i'n grwpiau ffydd partner yn *Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU*. Gobeithiwn hefyd y bydd Cyfarfodydd y Crynwyr ym Mhrydain yn ei rannu â'u Grwpiau Eglwysi Ynghyd a Fforymau Rhyng-ffydd lleol.

Yn ystod ein Cyfarfod Blynyddol ym Mhrifysgol Efrog ym mis Gorffennaf 2009, daethom, Grynwyr Prydain, i eglurder newydd ynglŷn â phriodas rhwng pâr o'r un rhyw a dymunwn rannu gyda chi y prosesau ysbrydol y cawsom ein harwain ganddynt at ddatblygiad mor bwysig yn ein bywyd gyda'n gilydd. Ein penderfyniad oedd gwneud yr un trefniadau i barau o'r un rhyw yn ein Cyfarfodydd ag sydd eisoes yn eu lle i barau o ryw gwahanol, ac y byddwn hefyd yn ceisio newid y gyfraith. Bu Crynwyr Prydain yn dysgu y dylai ein cymuned Gristnogol bellach ddathlu a rhoi cydnabyddiaeth lawn i'r perthnasau hoyw a lesbiaidd ymrwymedig sydd mor amlwg yn ein plith yn ein Cyfarfodydd lleol. Gwahoddwn ein heglwysi a'n grwpiau ffydd partner i gychwyn ar drafodaeth gyda ni ynglŷn â'r newid hwn drwy ysgrifennu at y *Quaker Committee for Christian and Interfaith Relations* dan ofal yr Ysgrifenyddes: Marigold Bentley, QCCIR, c/o Friends House, 173 Euston Road, London, NW1 2BJ.

Dirnadaeth ysbrydol

Dechreuwn drwy rannu gyda chi y ffordd yr ydym ni'r Crynwyr yn gwneud ein penderfyniadau. Wrth ystyried ein busnes, rydym yn cyfarfod drwy ymgasglu mewn distawrwydd ac yn llonyddwch addoli. Nid ydym yn pleidleisio; gwrandawn a disgwyliwn yn y Goleuni i gyd-ddirnad ewyllys Duw ar ein cyfer heddiw.¹

Mae dirnadaeth y Crynwyr yn gyfriniol ac yn seiliedig ar brofiad ac yn greiddiol iddi y mae ein hymrwymiad i ddilyn arweiniad ysbryd Crist yn ymarferol yn ogystal ag mewn egwyddor. Rydym wedi dysgu y gall Duw siarad drwy unrhyw un o bobl Dduw; ond hefyd mai dim ond drwy gydaddoli y gallwn ddirnad yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth ein cymuned a sut i weithredu ar y llais hwn.² Drwy ddilyn yr arfer hon, credwn ein bod yn parhau â thraddodiad a gychwynnodd gyda'r Eglwys Fore.³

Yn Efrog yr haf hwn, ymgasglodd 1700 o Gyfeillion ar gyfer ein hwythnos o gynulliad preswyl. Ymysg materion eraill, roeddem yno i roi ystyriaeth bellach i fater dathlu perthnasau ymrwymedig, sydd o ddiddordeb parhaus i ni. Ar gyfer y mater hwn, neilltuwyd pedair sesiwn gennym i'r hyn a alwn yn Saesneg yn *'threshing'*, sef edrych yn ddwfn i'n dealltwriaeth o fater sydd ger ein bron. Daeth ymhell dros 1,000 o Gyfeillion i bob un o'r sesiynau. Yn gyntaf, cawsom ein hatgoffa o'r hanes a'r agweddau sydd i'w hystyried ynglŷn â'r mater hwn. Yn ail, cawsom bedwar cyflwyniad grymus gan Gyfeillion a rannodd eu profiadau personol o berthnasau rhwng pâr o ryw gwahanol ac o'r un rhyw. Yn drydydd, mewn grwpiau bach, rhoesom ystyriaeth i'r hyn a ddysgom o'n profiad hir o berthnasau yn ein hymarfer ymhlith Cyfeillion Prydain a rhoesom ystyriaeth hefyd i'r hyn sydd gan y Beibl a gweithiau eraill i ddweud wrthym. Yn olaf, cynhaliwyd dwy sesiwn lle'r oeddem wedi ymgynnull yn ddwfn, lle buom yn gyntaf yn edrych yn ddwfn i'n dealltwriaeth o'r mater, gan geisio dirnadaeth gorfforaethol er mwyn canfod y ffordd ymlaen. Yn ystod y sesiynau hyn y symudodd y Cyfarfod yn bendant o'r profiad o *'threshing'* at wir synnwyr o arweiniad.

Yr arweiniad

Teimlodd Crynwyr Prydain y cawsant eu harwain i ymrwymo eu hunain i newid sylweddol yn ein dulliau priodas; yn y dyfodol caiff parau o'r un rhyw eu trin yn gyfartal â pharau o ryw gwahanol. Yn y sesiwn, cytunwyd ar Gofnod hir, a dyma ran ohono:

*...we are being led to treat same sex committed relationships in the same way as opposite sex marriages, reaffirming our central insight that marriage is the Lord's work and we are but witnesses. The question of legal recognition by the state is secondary.*⁴

Y cefndir

Bu'r Gymdeithas yn rhoi ystyriaeth weddigar i berthynas rhwng parau o'r un rhyw ers nifer o flynyddoedd bellach. Ym 1963, nododd y llyfryn *Towards a Quaker view of sex*, mewn darn a gyhoeddwyd wedyn yn ein llyfr disgyblaeth ym 1995, *'It is the nature and quality of a relationship that matters... the same criteria seem to us to apply whether a relationship is heterosexual or homosexual.'*⁵ Ym 1988 bu i'r *Meeting for Sufferings*, corff gweithredol cenedlaethol Crynwyr Prydain bryd hynny, gydnabod perthynas rhwng parau o'r un rhyw gan awgrymu y gallai Cyfarfodydd Unigol eu dathlu.

Yn dilyn Deddf Partneriaeth Sifil 2003, a ganiataodd i berthynas rhwng parau o'r un rhyw gael eu cofrestru'n sifil gan roi cydraddoldeb gyfreithiol â phriodas, dechreuodd llawer o Gyfeillion fynegi anesmwythyd ynglŷn â'r ffaith bod gallu'r Crynwyr i gydnabod priodas mewn cyd-destun crefyddol bellach wedi'i wahardd yn benodol yn ôl amodau partneriaeth sifil. Ystyriwyd y mater hwn ar amryw lefelau ein Cyfarfod Blynnyddol dros y blynnyddoedd dilynol, ac yn 2008 cafwyd argymhelliad gan *Meeting for Sufferings* y dylai'r Cyfarfod Blynnyddol ystyried sut y dylem ddathlu a chydabod perthynas ymrwymedig oddi mewn i'n cymuned o Grynwyr a pha ddiwygiadau i *Quaker faith and practice* ddylai ddilyn o hyn er mwyn cynnwys partneriaeth rhwng parau o'r un rhyw.

Ar ôl ymgynghori â holl Gyfarfodydd Prydain yn 2007, adroddodd y grŵp a benodwyd i adolygu'r farn bresennol:

There is overwhelming evidence that attitudes have changed significantly in recent years, even since our current book of discipline was published in 1995.⁶

Pan ddaeth y mater at y Cyfarfod Blynyddol yn 2009, meddai adroddiad ar y trafodion yn *The Friend*:

What was striking... was the sheer constancy of opinion expressed in favour of using the word 'marriage' and of starting the process of seeking a change in the law. And the reason given was consistently the same, that marriage is the Lord's work and the Lord is clearly marrying gay couples. All we have to do is to recognise it.⁷

Clywodd y sesiwn gan lawer o Gyfeillion a siaradodd am eu profiad uniongyrchol hwy ym mywyd Cyfarfodydd y Crynwyr bod rhodd priodas eisoes yn cael ei rhoi i barau o'r un rhyw y maent yn eu hadnabod yn ogystal â pharau o ryw gwahanol, gan ein harwain at gymhelliad dwys i weithredu'n awr.

Priodas yn null y Cyfeillion

Ym 1669, dyma sut y disgrifiwyd dealltwriaeth y Crynwyr o briodas gan George Fox, un o'n Cyfeillion cynnar mwyaf dylanwadol:

For the right joining in marriage is the work of the Lord only, and not the priests or magistrates; for it is God's ordinance and not man's and therefore Friends cannot consent that they should join them together: for we marry none; it is the Lord's work, and we are but witnesses.⁸

Yn nealltwriaeth y Crynwyr, mae'r pâr yn priodi ei gilydd yng ngolwg Duw a thystir i hynny gan y Cyfarfod. Nid oes canolwr yn perfformio'r seremoni nac yn datgan bod y pâr yn briod. Mae hyn yn cydnabod na ellir creu'r broses o ddot yn 'un cnawd' gan unrhyw gyfrwng allanol. Ni all unrhyw un ei hatal chwaith. Yr Arglwydd sy'n dwyn y pâr i undod. Dim ond cydnabod a dathlu bod hyn wedi digwydd y gallwn ni, wylwyr. Cafodd ein gweithdrefnau priodi yng ngofal y cyfarfod eu nodi o 1688 ymlaen⁹ a hysbyswyd y wladwriaeth ohonynt gan swyddogion cofrestru'r Crynwyr o 1753 ymlaen.¹⁰ Nodir yn glir yn ein llyfr disgyblaeth ym 1995 nad contract sifil yn unig yw priodas yn null y Cyfeillion, ond gweithred grefyddol.¹¹

Rhoi prawf ar yr arweiniad

Yn hanesyddol, cafodd y Crynwyr eu ffurfio gan ein profiad ysbrydol personol a chorfforaethol, a rhoddwyd prawf ar y fframwaith hwn yn erbyn y Beibl a'n tystiolaethau – i wirionedd a heddwch, cydraddoldeb a symlrwydd ymysg eraill. Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi darparu'r fframwaith ar gyfer yr hyn a gredwn a'n harferion. I Grynwyr, ni ddaeth y datguddiad i ben wrth i'r testun Beiblaidd gael ei gwblhau; bu ysbrydoliaeth barhaus bob amser yn ffynhonnell ychwanegol o awdurdod. Y mae

wedi ei gydnabod erioed y gallai ysbrydoliaeth dybiedig sy'n groes i'r Ysgrythur fod, mewn gwirionedd, yn gamagraff. Rhesymol, felly, yw rhoi prawf ar yr arweiniad hwn yn erbyn yr Ysgrythur, gan gofio bod y Crynwyr bob amser wedi cydnabod bod i'r Ysgrythur ystyr ysbrydol dyfnach a gâi ei egluro gan yr Ysbryd, yn ogystal â'r ystyr hanesyddol llythrennol.¹² Fel yr eglurodd Cyfaill cynnar arall, Isaac Penington:

And the end of words is to bring men to the knowledge of things beyond what words can utter. So, learn of the Lord to make a right use of the Scriptures: which is by esteeming them in their right place, and prizing that above them that is above them.

Yn y goleuni hwn, nid ydym yn ceisio rhoi'r testunau ar brawf i gadarnhau neu wrthod ein harweiniad. Yn hytrach, ceisiwn ddarllen yr Ysgrythur yn yr Ysbryd a'i hysbrydolodd.

Dylem fod yn glir nad yw'r Beibl yn trafod priodas rhwng pâr o'r un rhyw gan y tybir ym mydolwg y Beibl mai rhywbeth rhwng dynion a menywod yw priodas. Ond yn yr un modd, mae'r Beibl yn tybio bod caethwasiaeth ac amlbriodas yn bodoli, dau beth na chânt eu hystyried yn normadol gan Gristnogion ac Iddewon heddiw.¹³

Cafodd yr ysgrythur ei dyfynnu i wrthwynebu priodas rhwng pâr o'r un rhyw: yn gyntaf, i gondemnio perthynas rhwng pâr o'r un rhyw; yn ail, i ddiystyru'r posibilrwydd y gellir deall 'priodas' yn berthnasol i barau o'r un rhyw. O ran condemnio perthynas rhwng pâr o'r un rhyw, y testunau allweddol yw Genesis 19, Lefiticus 18:22 ac 20:13, Rhufeiniaid 1:26-27, ac 1 Corinthiaid 6:9-10.¹⁴ Mae'n ymddangos yn glir i ni nad oes yr un o'r rhain yn gwahardd perthynas rhwng pâr o'r un rhyw ynddi ei hun. Yn hytrach, maent naill ai'n tybio priodas heterorywiol, yn condemnio camddefnyddio pŵer mewn perthnasau penodol rhwng pâr o'r un rhyw neu'n cynnwys cyfunrywioldeb mewn cod o burdeb nad yw'n cael ei ystyried yn orfodol yn gyffredinol.¹⁵

O ran honni bod yr Ysgrythur yn ei gwneud yn ofynnol mai rhywbeth rhwng pâr o ryw gwahanol yw priodas, nodwn Genesis 2:24, Marc 10:2-9, ac Effesiaid 5:22-33. Ym mhob achos ni chawn fod y darn yn dadlau dros briodas heterorywiol, ond yn tybio priodas rhwng pâr o ryw gwahanol. Ym mhob achos, mae ystyr y darn yn ymwneud â'r gymuned a ddadlennir mewn priodas.¹⁶

Er ein bod yn cydnabod y gallai'r awduron Beiblaidd fod yn poeni ynghylch ymddygiad sy'n herio norm heterorywioldeb, cofiwn i Paul ysgrifennu: 'Nid oes rhagor rhwng Iddew a Groegwr, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chi oll yng Nghrist Iesu.' (Gal. 3:28) Bu i'r Cristnogion cyntaf fel ninnau brofi pŵer Ysbryd Crist i gyflwyno ffurfiau newydd ar gymuned a oresgynnodd anghydraddoldeb a rhaniadau hierarchaidd presennol.¹⁷

Rhannu ein harweiniad

A Chrynwyr Prydain bellach wedi ymrwymo ein hunain i'r newid hwn, dymunwn rannu'r newydd hwnnw gyda'n cyfeillion ymysg traddodiadau eraill y bywyd crefyddol.

Rydym yn ymwybodol y gallai'r penderfyniad hwn ymddangos yn radical iawn o ystyried cryfder y traddodiad sydd y tu ôl i'r arferion presennol ynghylch priodas. Rydym hefyd yn ymwybodol y gallai ein cyfeillion mewn enwadau a grwpiau ffydd eraill ofyn p'un a ddylem weithredu ein synnwyr o'r arweiniad gan yr Ysbryd hyd nes bod trafodaethau wedi'u cynnal ymysg

eraill. I ni, serch hynny, bu hwn yn arweiniad pwerus ac yn brofiad nerthol o'r Ysbryd a theimlodd y Cyfarfod Blynyddol yn eglur iawn mai nawr oedd yr amser i benderfynu. Roedd ein Cofnod yn cynnwys y geiriau hyn:

We will need to explain our decision to other Christian bodies, other faith communities, and, indeed to other Yearly Meetings, and pray for a continuing loving dialogue, even with those who might disagree strongly with what we affirm as our discernment of God's will for us at this time.

Dilyn ein harweiniad – y cam nesaf

Ein bwriad yn awr yw ffurfioli ein trefniadau i alluogi cyfarfodydd y Crynwyr yn lleol i gydnabod, dathlu, cofnodi ac adrodd ar briodas rhwng pâr o'r un rhyw i Grynwyr a'r rhai sy'n gysylltiedig â ni, yn yr un modd ag ydym yn dathlu priodas heterorywiol. Byddwn yn ceisio newid y gyfraith. Ni fyddwn yn darparu hyn i bobl nad ydynt yn Grynwyr, ac ni ddymunwn ddweud wrth eglwysi neu grwpiau ffydd eraill y dylent hwythau wneud yr hyn a wnawn ni. Hefyd, penderfyniad Cyfeillion Prydain yw hwn, nid cymuned y Crynwyr yn fyd-eang a fydd yn dilyn eu dirnadaeth eu hunain. Mae angen i ni baratoi newidiadau i'n Llyfr Disgyblaeth i adlewyrchu ein dirnadaeth ac mae Cyfeillion eisoes yn gweithio ar weithredu'r penderfyniadau hyn. Mae Cofnod 23 ein Cyfarfod Blynyddol yn dweud:

We therefore ask Meeting for Sufferings to take steps to put this leading into practice and to arrange for a draft revision of the relevant sections of Quaker faith & practice, so that same sex marriages can be prepared, celebrated, witnessed, recorded and reported to the state, as opposite sex marriages are. We also ask Meeting for Sufferings to engage with our governments to seek a change in the relevant laws so that same sex marriages notified in this way can be recognised as legally valid, without further process, in the same way as opposite sex marriages celebrated in our meetings. We will not at this time require our registering officers to act contrary to the law, but understand that the law does not preclude them from playing a central role in the celebration and recording of same sex marriages.

Yn olaf

Dau gan mlynedd yn ôl, roedd cenhedlaeth gynharach yn dal i fod heb ddysgu bod yr arfer o gaethwasiaeth yn achos o anghyfiawnder i'n cyd-ddyn. Heddiw rydym yn rhyfeddu na wnaethant gydnabod hyn hyd nes i weledyddion ddangos hynny iddynt. Credwn, ymhen dau gan mlynedd, y bydd y rhai a ddaw ar ein hôl yn rhyfeddu yn yr un modd o ganfod nad oeddem ninnau yn yr unfed ganrif ar hugain wedi gwireddu cydraddoldeb llawn i bobl lesbiaidd a hoyw.

*'You will say,' George Fox is reported as declaring in 1652, 'Christ saith this, and the apostles say this; but what canst thou say? Art thou a child of Light and hast walked in the Light, and what thou speakest, is it inwardly from God?'*¹⁸

Nodiadau

Mae'r teitl, Nid ydym ond tystion, yn gyfieithiad o *We are but witnesses*, a ddaw o waith George Fox – gweler nodyn 8 isod.

- 1 Caiff Cyfarfodydd Addoli'r Crynwyr er Busnes eu disgrifio yn *Quaker faith & Practice*, 1995, pennod 3 (a phennod 2). Ceir ymdriniaeth lawn yn, e.e., Sheeran, Michael J. , 1983, *Beyond majority rule: voteless decisions in the Religious Society of Friends*, Philadelphia Yearly Meeting of the Religious Society of Friends.
- 2 Gweler 1 Cor. 2:10, 14–16; 14:29. Gweler hefyd: Palmer, Parker J. , 2007, *The courage to teach guide for reflection and renewal*, Parker J. Palmer gyda Megan Scribner, argraffiad 10 mlwyddiant, San Francisco, CA: Jossey-Bass, t. 127.
- 3 Gweler Rhuf. 12:2, 1 Cor. 12:10, 1 Ioan 4:1, Eff. 1:18.
- 4 Cyfarfod Blynyddol Prydain (Cymdeithas y Cyfeillion), Cyfarfod (2009: Efrog, Lloegr), Cofnod 23, 31 Gorffennaf 2009.
- 5 *Towards a Quaker view of sex*, gan griw o Gyfeillion, 1963, t. 38–39.
- 6 *Quaker faith & practice*, §22.15.
- 7 Loverance, Rowena, 2009, 'Equality for same-sex marriage: how did we do it?', *The Friend*, 7 Awst.
- 8 Fox, George [1624–1691], 1698, *A collection of select and Christian epistles*, Llundain: argraffwyd a gwerthwyd gan T. Sowle, t. 281. Dyfynnwyd yn *Quaker faith & practice*, 16.01.
- 9 *Quaker faith & practice*, §19.56.
- 10 Prydain, Deddf Priodas, 1753.
- 11 *Quaker faith & practice*, §16.05.
- 12 Lisa Sowle Cahill, 1998, *Sex, gender, and Christian ethics*, Caergrawnt.
- 13 Ceir ystyriaethau pellach o'r testunau Beiblaidd yn: Heacock, Anthony, 2009, *Jonathan loved David: manly love in the Bible and the hermeneutics of sex*, Sheffield: Phoenix Press.
- 14 Gweler Eseia 1, 3; Jeremeia; Eseciel; Sephaniah; Barnwyr 19; Math. 10
- 15 A gweler gydnabyddiaeth Pedr y caiff pob bwyd ei wneud yn lân.
- 16 Mae papur mwy llawn sy'n archwilio'r deunydd Beiblaidd, *British Quakers and same-sex marriage* gan Rachel Muers, bellach ar gael drwy QCCIR c/o Friends House (cyfeiriad isod).
- 17 1 Corinthiaid pennod 3 er enghraifft.
- 18 *Quaker faith & practice*, §19.07.

Mae fersiwn print bras o'r adnodd hwn ar gael ar gais drwy:

E-bost: infoteam@quaker.org.uk

Ffôn: 020 7866 9511

Cyhoeddwyd gan y *Quaker Committee for Christian and Interfaith Relations* (QCCIR), Cyfarfod Blynyddol Prydain, Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion (Crynwyr)

Friends House, 173 Euston Road, London NW1 2BJ

www.quaker.org.uk/qccir

Rhif elusen gofrestredig 1127633

Medi 2009